



Mae Brechu yn achub bywydau
Vaccination saves lives



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Iechyd Cyhoeddus
Cymru
Public Health
Wales

Rhaglen dal i fyny ddetholus y brechlyn farisela (brech yr ieir)

a fydd yn rhedeg rhwng Tachwedd 2026 a Mawrth 2028

Cymorth gweledol ac algorithm cymhwysedd
ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol



Sgania fi am ragor
o wybodaeth ar
MMRV

SKU IMM264

Cefndir

Mae GIG Cymru yn cynnig rhaglen dal i fyny farisela (brech yr ieir) ddetholus â chyfyngiad amser gan ddefnyddio'r brechlyn MMRV cyfun. Mae hyn i helpu i ddiogelu plant cymwys rhag haint brech yr ieir.

Mae plant **a aned rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Awst 2022** yn cael cynnig **un dos o'r brechlyn MMRV**. Roedd y plant hyn yn rhy hen i gael cynnig y brechiad brech yr ieir rheolaidd pan gafodd ei gyflwyno i amserlen imiwneiddio plant Cymru yn gynharach eleni.

Os nad yw'r plant hyn wedi cael haint brech yr ieir nac wedi cael eu brechu yn erbyn brech yr ieir, maent mewn perygl o gael yr haint.

Disgwylir i'r rhaglen dal i fyny ddetholus MMRV gyflymu'r rheolaeth ar haint brech yr ieir, lleihau trosglwyddiad, a darparu amddiffyniad i blant cymwys sy'n parhau i allu dal brech yr ieir.



Bydd y rhaglen hon yn rhedeg rhwng **2 Tachwedd 2026 a 31 Mawrth 2028**. Bydd angen hysbysu rhieni am gymhwysedd erbyn 31 Mawrth 2027.

Mae'n seiliedig ar gyngor ¹ y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ac mae wedi'i amlinellu yng Nghylchlythyr Iechyd Cymru ².

Pwy ddylai gael cynnig y brechlyn MMRV fel rhan o'r rhaglen dal i fyny ddetholus?

Dylid cynnig **un dos o'r brechlyn MMRV** i blant â **dyddiad geni rhwng 1 Ionawr 2020 a 31 Awst 2022** (y rhai rhwng 3 blynedd a 4 mis oed ac o dan 6 oed ar 1 Ionawr 2026). Diffinnir eu cymhwysedd gan eu dyddiad geni, yn hytrach na'u hoedran.

Dylid cynnig y brechlyn i blant sydd:

- **heb hanes o gael haint brech yr ieir a/neu**
- **heb gael dau ddos o'r brechlyn farisela o'r blaen.**



Nid oes angen i bractisiau meddygon teulu wirio a yw plentyn wedi cael brech yr ieir neu ddau ddos o frechlyn brech yr ieir cyn anfon gwahoddiad ato. Gellir cadarnhau cymhwysedd os byddant yn ymateb i'r cynnig. Nid oes gofyniad i bractisiau meddygon teulu wirio hanes haint brech yr ieir yr unigolyn drwy gynnal profion seroleg.

Os oes ansicrwydd ynghylch a yw'r plentyn wedi cael haint brech yr ieir o'r blaen, gellir cynghori'r rhieni ei bod yn ddiogel ac yn well i'w plentyn gael y brechlyn dal i fyny detholus MMRV.

- Dylai'r plentyn fod wedi cael dau frechiad MMR blaenorol. **Nid oes pryderon diogelwch** yn bodoli o ran cael tri brechlyn sy'n cynnwys MMR.
- **Nid oes pryderon diogelwch** yn bodoli ynghylch rhoi'r brechlyn i blentyn sydd eisoes wedi cael haint brech yr ieir neu frechiad farisela blaenorol.

Pa frechlynnau MMRV sy'n cael eu defnyddio?

- ProQuad®
- Priorix Tetra®. Nid yw'n cynnwys gelatin moch. Cyfeiriwch at **Frechlynnau a gelatin moch - lechyd Cyhoeddus Cymru**

Mae'n bwysig adolygu cofnod brechu'r plentyn a chynnig unrhyw frechiadau y mae heb eu cael.

Dylid rhoi unrhyw frechiadau a gollwyd gan ddefnyddio **Brechu unigolion sydd â hanes iminweiddio ansicr neu anghyflawn - GOV.UK** Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (safle allanol, Saesneg yn unig)

Manylion Cyswllt

Os oes gennych gwestiynau, cysylltwch â'ch bwrdd iechyd

Cysylltiadau brechlyn - Iechyd Cyhoeddus Cymru

neu anfonwch e-bost i phw.vaccines@wales.nhs.uk

Rhagor o wybodaeth


- Cylchlythyr Iechyd Cymru **Rhaglen dal i fyny ddetholus ar gyfer brechiadau farisela (brech yr ieir) o 1 Tachwedd 2026 (WHC/2026/032)** (safle allanol)
- Iechyd Cyhoeddus Cymru (ICC) MMRV – gwybodaeth i weithwyr gofal iechyd proffesiynol icc.gig.cymru/brechlynnau-proffesiynol
- MMRV ICC – gwybodaeth i'r cyhoedd icc.gig.cymru/MMRV-MMR
- Newidiadau ICC i'r amserlen imiwneiddio plant ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol icc.gig.cymru/brechlynnau/ccs-gweithwyr-iechyd-proffesiynol
- Newidiadau ICC i'r amserlen imiwneiddio plant ar gyfer y cyhoedd icc.gig.cymru/brechlynnau/ccs-gwybodaeth-ir-cyhoedd
- Amserlenni imiwneiddio rheolaidd ICC icc.gig.cymru/AmserlenGyflawn
- **Adnoddau a digwyddiadau hyfforddiant imiwneiddio ICC**
- Adnoddau am ddim ICC i gefnogi brechu icc.gig.cymru/adnoddau-gwybodaeth-iechyd
- **Farisela: y llyfr gwyrdd - GOV.UK** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Cyfarwyddiadau Grŵp Cleifion (PGD) - Gwasanaeth Cyngor ar Feddyginiaethau Cymru** (safle allanol)
- **Brechu MMRV: gwybodaeth ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol** Asiantaeth Diogelwch Iechyd y DU (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **ProQuad® Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch (SmPC)** (safle allanol, Saesneg yn unig)
- **Priorix Tetra® Crynodeb o Nodweddion y Cynnyrch (SmPC)** (safle allanol, Saesneg yn unig)

Cyfeiriadau

1. Datganiad y Cyd-bwyllgor ar Imiwneiddio a Brechu (JCVI) ar raglen frechu farisela (brech yr ieir) i blant - GOV.UK (safle allanol, Saesneg yn unig)
2. Brechiad farisela (brech yr ieir) arferol i blant ifanc o 1 Ionawr 2026 (WHC/2025/046) [HTML] | LLYW.CYMRU (safle allanol)

Rhaglen dal i fyny ddetholus y brechlyn farisela (brech yr ieir) a fydd yn rhedeg rhwng Tachwedd 2026 a Mawrth 2028

Algorithm cymhwysedd



* Am yr amserlenni rheolaidd ar gyfer Cymru gweler: **Amserlenni imiwneiddio rheolaidd ar gyfer Cymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru**

** Nid oes angen i bractisiau meddygon teulu wirio a yw plentyn wedi cael haint brech yr ieir neu frechlyn farisela cyn anfon gwahoddiad ato. Gellir cadarnhau cymhwysedd os byddant yn ymateb i'r cynnig. Nid oes gofyniad i bractisiau meddygon teulu wirio hanes haint brech yr ieir yr unigolyn drwy gynnal profion seroleg.